# CBAC Mathemateg Bellach UG Lefel 3




### Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn cynnig cipolwg difyr ac addysgiadol ar Fathemateg.

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn dilyniant mathemategol

... Ydych eisiau dilyn gyrfa mewn Addysgu, Cyfrifeg neu Ystadegau

... Ydych yn gweithio'n galed ac yn rhagweithiol

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae Mathemateg Bellach yn ehangu a dyfnhau'r meysydd pwnc a astudir ym Mathemateg Lefel UG/U. Mae'n gymhwyster Lefel UG/U ar wahân, ac mae modd ymgymryd ag o ochr yn ochr â'r opsiwn Mathemateg arferol yn unig. Cewch eich cyflwyno i bynciau newydd, megis Matricsau a Rhifau Cymhleth, sy'n hanfodol mewn nifer o gyrsiau gradd ag elfen gref o

fathemateg. Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu i dair elfen:  Mathemateg Bur, Ystadegau a Mecaneg.

Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Mathemateg Bellach Lefel U CBAC
Gweithgareddau sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd A*-C, yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg a gradd A* neu A mewn Mathemateg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun gan fodloni terfynau amser gwaith cartref yn gyson a chymryd rhan mewn asesiadau ffurfiol cyson.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Prifysgol, yn cynnwys graddau sydd ag elfen gref o Fathemateg, megis Mathemateg, Peirianneg, Gwyddorau, Cyfrifiadura a Chyllid ac Economeg. Byddwch yn cael budd enfawr o ymgymryd â Mathemateg Bellach i o leiaf Lefel UG. Mae'n bwnc a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i gynnig cwricwlwm amrywiol a chyfoethog i'w ddysgwyr Lefel A ac UG ac mae'n awyddus i sicrhau bod dysgwyr ledled Gwent yn gallu cael mynediad at bynciau sydd yn hanesyddol yn recriwtio niferoedd bach. Er mwyn sicrhau argaeledd, cynigir Sbaeneg a Ffrangeg ar ein Campws Crosskeys a chynigir y Gymraeg ar ein campysau Parth Dysgu Crosskeys a Blaenau Gwent. Bydd Cerddoriaeth a Mathemateg Bellach yn cael eu cynnig ar bob un o'n campysau. Os bydd eich dewis o bynciau yn golygu bod angen teithio rhwng campysau, cysylltwch â'n hadran dderbyniadau am ragor o wybodaeth.